Statws *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2020 Rhif 1558 (Cy. 329)

Y GYFRAITH GYFANSODDIADOL CYNRYCHIOLAETH Y BOBL, CYMRU

Gorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) (Diwygio) 2020

Gwnaed - - - -	*16 Rhagfyr 2020*
Yn dod i rym - -	*17 Rhagfyr 2020*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 13(1), 13(2) a 157(2)(c) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(**1**) fel y'i hestynnir gan adran 26(3) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993(**2**).

Yn unol ag adran 7(1) a (2)(f) o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000(**3**), mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r Comisiwn Etholiadol cyn iddo gael ei wneud.

Yn unol ag adran 13(7) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad.

(**1**) 2006 p. 32. Amnewidiwyd adran 13 gan adran 5(1) o Ddeddf Cymru 2017 (p. 4) ac fe'i diwygiwyd wedi hynny gan Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (dccc 1).
(**2**) 1993 p. 38.
(**3**) 2000 p. 41; amnewidiwyd is-adran (2)(f) gan O.S. 2007/1388 ac fe'i diwygiwyd wedi hynny gan Ddeddf Cymru 2017 (p. 4).